COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Gorffennaf 17eg, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris

YMDDIHEURIADAU

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), Alun Jones, Erfyl W. Roberts, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

ABSENNOL

William B. Williams

Croesawodd yr Is-gadeirydd bawb i'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Erfyl Wyn Roberts ar farwolaeth ei dad-yng-nghyfraith.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 12fed, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

C19/0435/39/CR	Codi estyniad ar gefn tŷ annedd – Ty'n Llan, Llangian - **Cefnogir**
C19/0436/39/LL	Codi estyniad ar gefn tŷ annedd – Ty'n Llan, Llangian - **Cefnogir**
C19/0532/39/RC	Cais i ddiwygio Cytundeb 106 er tynnu cyfyngiad meddiannaeth gweithiwr amaethyddol/coedwigaeth - Cae Berllan, Mynytho **– Gwrthwynebir oherwydd gosodir amod am reswm [Datgan Diddordeb – JGJ]**
C19/0538/39/LL	Dymchwel modurdy ac estyniad cefn a chodi estyniad deulawr ochr i gynnwys modurdy integredig ac estyniad unllawr cefn - Coed yr Afon, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a phryderir tan atebir cwestiynau'r cymdogion**
C19/0539/39/LL	Estyniad unllawr blaen, ochr a chefn ac ymestyn modurdy i gynnwys llawr cyntaf – Caldy, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ac nad yw'r cynllun yn gweddu â'r tai o gwmpas**

C19/0563/39/LL	Gosod ffenestr gromen gefn a ffenestr do blaen - Delphis, Stad Llwyn Onn, Aber-soch – **Cefnogir**
C19/0598/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0341/39/LL er gwneud y gwaith yn unol â chynlluniau diwygiedig sy'n cynnwys cloddio rhan o graig a chodi uchder y llwyfan glanio rhyw fetr, ynghyd â chyflwyno manylion i ryddhau Amodau 3 (Adroddiad CARHA) a 5 (lliw'r llithrfa) – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd gosodir amodau am reswm. Mynegwyd y llwyddodd eraill (gan gynnwys defaid) lanio ar yr Ynys yn ddidrafferth heb lanfa ers degawdau [Datgan Diddordeb – OLJ]**
C19/0632/39/LL	Estyniad unllawr cefn â balconi uwchben ac addasiadau i do'r porth ac adain gefn – Tacoma, Aber-soch **– Cefnogir**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Cytundeb***
Ni dderbyniwyd anfoneb i'r uchod.

ii) ***Treth Toiledau Lôn Traeth***
Ni chafwyd cyfle i holi swyddogion Partneriaeth Ogwen na threfnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Ariannol i drafod sefydlu cwmni dielw. Derbyniwyd copi o Ddatganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus – daw i rym ar Ebrill 1af, 2020.

iii) **Arolwg Senedd Pobl Hŷn Cymru am Ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus**
Dychwelyd eisoes.

b) **11. Gohebiaeth: b) Arloesi Gwynedd Wledig – Newyddlen mis Ebrill**
Ni lwyddwyd gosod y ddyfais ffi 'di-arian' yn nhoiledau cymunedol Llanberis oherwydd cymhlethdod sut cesglir yr arian (Elavon); rhennir gwybodaeth pan ddechreua'r prosiect. Gobeithir creu 'toolkit' diwedd yr haf fydd yn esbonio'r prif gamau sydd angen eu cymryd i osod teclyn mewn toiledau.

c) **11. Gohebiaeth: c) Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach yn dilyn y cyfarfod safle ar Fehefin 19eg. Anfonwyd copi o ohebiaeth y Cyngor ers Mehefin 12fed y llynedd at yr Adrannau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Deallwyd y derbyniwyd nifer cynyddol o gwynion/pryder am y safle.

ch) **11. Gohebiaeth: d) Wyn Williams – Menter Iaith**
Derbyniwyd copi o adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Aber-soch ar Fehefin 5ed oddi wrth Ifan Llewelyn, Swyddog Hunan*iaith.* Fe'i cyflwynodd ar y ffurf y cynhaliwyd y drafodaeth ar y noson.

d) **O Ddrws i Ddrws – Poster Ariannu**
Dosbarthwyd copi o'r posteri i hysbysebu'r gwasanaeth. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Meinir Jones parthed yr ymholiad bod rhaid talu ugain punt cyn defnyddio'r gwasanaeth. Ymddiheurodd na chofiodd y dechreuwyd codi tâl aelodaeth pan fynychodd y cyfarfod ond, yn dilyn trafodaeth yn y swyddfa, ni fydd hynny'n parhau, gan fod cyfraniad y Cyngor yn ddigonol ar ei gyfer.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod – trefnir un ar ôl y gwyliau.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**

i) ***Cae Aber-soch – Prisiau Goliau***
Derbyniwyd pris o £1150.00 oddi wrth Mona Fuel & Trading Col. Ltd. ond, rhoddwyd mesuriadau anghywir – mae angen 16 troedfedd yn hytrach na deuddeg – sy'n cynnwys eu paentio sydd ddim ei angen.
Deallwyd bod un o goliau Cae Chwarae Mynytho wedi diflannu.

ii) ***Trac Beicio Mynytho***
Trefnodd Pennaeth Ysgol Foel Gron fod Dewi Wyn yn dod i dynnu llun y trac am 9.30 o'r gloch bore fory – cyn i'r ysgol gau am yr haf.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Cynhelir y gwaith torri a chynnal y coed ar hyn o bryd.

c) **Paentio'r Offer**
Anfonwyd cerdyn cydymdeimlo ar ran y Cyngor at y contractwr yn dilyn ei brofedigaeth o golli ei fam.

ch) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Fe'i cynhelir ar Awst 9fed.

d) **Gwerthu Ceir ar Lain y Pentref**
Derbyniwyd ymateb i'r llythyr oddi wrth y gwerthwr – symudodd y ceir erbyn hyn. Coda'r mater y cedwir bws ysgol ar y Llain hefyd – cysylltir â'r cwmni i ofyn i'r gyrrwr ei pharcio'n rhywle arall o fis Medi ymlaen.

8. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol Mewnol ac Allanol 2018 – 2019**
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth yr Archwiliwr Mewnol parthed yr wybodaeth ar y wefan, ynghyd ag adroddiad newydd. Anfonwyd y ddogfennaeth at BDO ond, disgwylir rhestr o gwestiynau oddi wrtho fel arfer tua chanol mis Awst.

b) **Penodi Archwiliwr Mewnol 2019 – 2020**
Gwahoddwyd Adran Archwilio Cyngor Gwynedd fod yn Archwiliwr Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ond, ni dderbyniwyd ymateb.

c) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**

- Derbyniwyd y meinciau a'r anfoneb (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) ond, ni chafodd Cyng. E.W. Roberts gyfle i'w gosod hyd yma oherwydd ei brofedigaeth deuluol.
- Gan na chyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol i drafod y fainc solar eto, awgrymodd y Clerc tybed a ellid defnyddio'r gymynrodd a dderbyniwyd y llynedd i brynu un a'i

gosod yng Nghae Chwarae Aber-soch? Gobeithia ymweld â Chonwy i dynnu llun yr un sydd ar y cei yno a'r ddwy arall yn Llansannan a Llanfair Talhaearn yn ystod y gwyliau.

ch) **Taliad Talu Wrth Ennill mis Mehefin**
Hysbyswyd y gwnaeth BACSTAL gamgymeriad ar gyfer yr uchod - £5.61 oedd y swm cywir ond, talwyd £21.80. O ganlyniad, mae'r Cyngor mewn credyd am y tri mis nesaf. Er hynny, derbyniwyd cais am £5.61 ar gyfer y mis hwn ond, ar ôl holi, nid oes rhaid ei dalu – ymddiheurwyd am y camgymeriad.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiadau eraill ond, derbyniwyd gohebiaeth bellach y trefnwyd rhybudd gorfodaeth ar 4 Cae Du, Aber-soch, am osod tanc nwy yn y ddaear heb ganiatâd ac, yr adeiladwyd y modurdy a'r sied/storfa a ganiatawyd eisoes, yn rhy uchel.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Anfonwyd y llythyr i fynegi pryder am yr uchod, yn arbennig ar ôl derbyn copi o ddyfarniad yr Archwilydd Cynllunio a ganiataodd apêl berchennog Cwt Rhif 2 yn erbyn dyfarniad Cyngor Gwynedd – dechrau'r diwedd go iawn. Hysbyswyd yr Adran, yn ogystal, y gosodir un ohonynt ar wefan AirB&B. Yr unig un a ymatebodd i'r llythyr hyd yma yw'r Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor, a oedd yn mynd i ofyn i'r Adran Gynllunio am adroddiad ond, ni dderbyniwyd dim pellach oddi wrth yntau ychwaith.

c) **Holiadur Traethawd Ymchwil Effaith Ail Gartrefi ar Gymunedau Gwledig**
Derbyniwyd copi o'r uchod oddi wrth Owain Watkin Hughes, Cynorthwy-ydd Cynllunio
Cyngor Sir Ynys Môn, fel rhan o'i waith ymchwil ar gyfer ei radd MA. Ei fwriad yw casglu data a fydd yn arddangos sut yr effeithia ailgartrefi ar gymunedau gwledig lleol, os o gwbl, gan gynghorwyr etholedig a chynghorau tref a chymuned yn Ynys Môn a Gwynedd. Anfonir copi at bawb – angen ymateb erbyn Awst 1af.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Bin Baw Ci ym Marchros**
i) Derbyniwyd ateb oddi wrth yr Adain Fwrdeistrefol parthed gosod bin newydd/ ychwanegol yn y maes parcio. Yn dilyn trafodaethau pellach ag eraill, daethpwyd i'r casgliad y byddai gosod bin yno yn fwy o drafferth na'i werth oherwydd ei agosatrwydd at eraill, y denai bin baw ci fwy o ysbwriel ac ni dderbyniwyd ymholiad pellach.
ii) Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. John B. Hughes drannoeth penwythnos y Sulgwyn yn nodi y derbyniwyd cwynion am gyflwr y biniau baw cŵn yn y gymuned ac, o ganlyniad, trosglwyddwyd hwy i Alw Gwynedd. Mae cryn oedi cyn eu gwagio; penderfynwyd cysylltu i ategu hynny.

b) **Rhaglen Waith mis Mehefin**
Ni ddechreuwyd y gwaith ail-wynebu (*microashpalt*) tan ddechrau'r mis a phenderfynwyd ysgrifennu i gwyno amdano.

c) **Cilfan Talfan**

Derbyniwyd cwyn am y tyllau a wna lorïau sy'n parcio yn yr uchod oddi wrth drigolyn sy'n byw gerllaw. Cysylltodd â Galw Gwynedd a dywedwyd wrthi mai'r Cyngor hwn sy'n gyfrifol amdano. O hysbysu'r Adran, ymddiheurodd y swyddog perthnasol am gamddealltwriaeth hanesyddol parthed perchnogaeth y gilfan – dywedwyd wrtho ei fod yn rhan o'r briffordd ond, nid yw erioed wedi'i gynnal. Ychwanegodd pan ddechreuodd yn ei swydd dros ugain mlynedd yn ôl, deallodd mai cyfrifoldeb y Cyngor hwn ydoedd.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**

i) Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau.

ii) Derbyniwyd anfoneb un o'r contractwyr – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – a noda bod angen sylw ar gamfeydd; cysylltir ag ef i gael gwybod pa rai er mwyn hysbysu DWO.

b) **Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51)**

Adroddodd DWO fod y llwybr hwn yn iawn ar hyn o bryd ond, cred y bydd angen torri mwy o'r tyfiant o'i gwmpas - gobeithia ei wneud ym mis Medi ar ôl y tymor nythu. Bwriada wneud mwy o waith arno'r holl ffordd i lawr i Aber-soch - gobeithia ddechrau ar y rhan gwaelod a'r canol yn ystod y mis yma.

c) **Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchtocyn**

Gobeithia gael contractwr i weld y gwaith o fewn y mis nesaf.

ch) **Gwaith ar Lwybrau**

Ychwanegodd DWO y gobeithiai wneud gwaith ar y llwybrau a ganlyn trwy arian nawdd AHNE:

i) ***Rhif 10 – Bryn Ffynnon i Fryn Celyn Isaf***
gwelliannau newydd camfeydd am giatiau

ii) ***Rhif 12 – Riffli***
amnewid y gamfa enfawr sy'n dod i lawr i'r ffordd fawr am giât a stepiau

iii) ***Rhif 29 – Bodlondeb i Rhianfa, Sarn Bach***
amnewid camfeydd am giatiau a mân welliannau eraill.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Bwletin mis Mehefin***
Copi, er gwybodaeth.

ii) ***Cynrychiolydd ULlC ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Betsi Cadwaladr***
Etholwyd Cyng. Meic Parry, Pwllheli, fel cynrychiolydd newydd.

b) **Gwasanaethau Cyfreithiol – Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006**

Ymgynghoriad ar yr uchod a ddaw i ben ar Awst 23ain.

c) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
Derbyniwyd gohebiaeth y daeth y cytundeb i ben ac yr anfonid un drafft erbyn cyfarfod heno ond, ni dderbyniwyd un.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0895/39/LL Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd **–** Pentre Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C19/0394/39/LL Estyniad deulawr gromen ochr **–** 25 Tan-y-Gaer, Aber-soch – **Gwrthodwyd**

C19/0405/39/LL Cais Diwygiedig – Modurdy a storfa at ochr y tŷ – 4 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C19/0431/39/LL Estyniad cefn **–** Hafod, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

C19/0450/39/LL Cyfnewid to fflat am un brig llechi, ynghyd ag adeiladu estyniad deulawr i'r ochr **–** Pendalar, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

C19/0451/39/LL Estyniad llawr cyntaf **–** Trem y Borth, Bwlchtocyn – **Gwrthodwyd**

C19/0482/39/LL Modurdy a storfa – Gwynfa, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddiamodol**

[Penderfynwyd holi pam y dyfarnwyd yr uchod yn ddiamodol o gymharu â phob modurdy arall a ganiatawyd ag amodau dros y blynyddoedd. Ychwanegir y gofynnir, wrth anfon sylwadau'r Cyngor hwn, y gosodir amod mai modurdy'n unig fydd yr adeilad.]

C19/0483/39/DA Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio C18/1085/39/LL er mwyn ail-leoli ffenestr cegin o ddrychiad gorllewinol i un gogleddol – Fferm Corn, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**

C19/0521/39/DA Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio C18/1049/39/LL er mwyn codi uchder, gosod ffenestri a diwygio drws y cwt glan môr **–** Cwt Glan y Môr Marchros, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Gorffennaf (Rh/S 002240) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Dŵr Cymru – £200.40 (Rh/S 002239 – Meinciau Newydd)
b) Glasdon Ltd. – £1463.93 (Rh/S 002241 – Meinciau Newydd)
c) Wildewood Tree Services – £500.00 (Rh/S 002242 – Torri Coed Cae Chwarae a Choed yr Allt, Aber-soch)
ch) Rob Singleton – £5800.00 (Rh/S 002243 – Torri Llwybrau Wardiau Aber-soch a Llanengan)
d) E-on – £48.05 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau
a) Toiledau – £307.00 (Tâl Mynediad – £22.80, £57.50, £85.40, £75.10, £66.20)
b) Cyllid a Thollau EM – £6336.60 (Ad-daliad TAW 2018 – 2019)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Medi 11eg, 2019 am saith o'r gloch